



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

# Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd



## Canllawiau drafft

Dogfen ganllawiau ddrafft: rhif 199/2016  
Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2016

# Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd

|                               |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|-------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Cynulleidfa</b>            | Cyrff llywodraethu a staff ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol yng Nghymru.                                                                                                                                                                                                                                                                                            |
| <b>Trosolwg</b>               | Mae'r canllawiau drafft hyn yn disodli Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 003/2010 <i>Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol</i> (2010). Mae'n amlinellu'r trefniadau a allai fod yn ofynnol neu'n ddymunol i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, trefniadau a allai alluogi'r dysgwyr hyn i barhau â'u haddysg gyda'r amhariad lleiaf posibl.                                             |
| <b>Camau i'w cymryd</b>       | Dylid tynnu sylw pob rheolwr, aelod o staff a gweithiwr gofal iechyd perthnasol sy'n gweithio mewn amgylchedd ysgol at y ddogfen hon.                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| <b>Rhagor o wybodaeth</b>     | <p>Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon i:</p> <p>Y Gangen Anghenion Dysgu Ychwanegol<br/>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br/>Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr<br/>Llywodraeth Cymru<br/>Parc Cathays<br/>Caerdydd<br/>CF10 3NQ</p> <p>Ffôn: 029 2082 6887<br/>e-bost: <a href="mailto:Additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk">Additionallearningneedsbranch@cymru.gsi.gov.uk</a></p> |
| <b>Copïau ychwanegol</b>      | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn <a href="http://www.llyw.cymru/ymgyngghoriadau">www.llyw.cymru/ymgyngghoriadau</a>                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <b>Dogfennau cysylltiedig</b> | <p><i>Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol</i> (2010)</p> <p><i>Canllawiau ar y defnydd o anadlwyr salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru</i> (2014)</p>                                                                                                                                                                                                                                                |

# Cynnwys

|                                                                                |           |
|--------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>1. Cyflwyniad</b>                                                           | <b>2</b>  |
| Am y canllawiau hyn                                                            | 2         |
| Egwyddorion cyffredinol wrth ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr           | 4         |
| Fframwaith gyfreithiol                                                         | 5         |
| Preifatrwydd/cyfrinachedd                                                      | 5         |
| <b>2. Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd</b>                            | <b>6</b>  |
| Rolau a chyfrifoldebau                                                         | 6         |
| Creu amgylchedd dysgu hygyrch                                                  | 10        |
| Rhannu gwybodaeth                                                              | 12        |
| Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr | 13        |
| Storio a gweinyddu meddyginiaeth a dyfeisiau a mynediad atynt                  | 13        |
| Gweithdrefnau argyfwng                                                         | 15        |
| Hyfforddiant                                                                   | 16        |
| Arholiadau cymhwyster ac asesiadau cwricwlwm cenedlaethol                      | 17        |
| EOTAS – addysg addas heblaw yn yr ysgol                                        | 17        |
| Dysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol                                    | 19        |
| Integreiddio                                                                   | 19        |
| Cludiant i'r ysgol                                                             | 20        |
| Adolygu – polisiau, trefniadau a gweithdrefnau                                 | 21        |
| Trefniadau yswiriant                                                           | 21        |
| Gweithdrefn cwynion                                                            | 21        |
| <b>3. Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)</b>                                | <b>22</b> |
| Rolau a chyfrifoldebau wrth greu a rheoli CGIU                                 | 23        |
| Cydlynu gwybodaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y dysgwr a rhieni | 24        |
| Rhannu gwybodaeth                                                              | 24        |
| Rôl y dysgwr wrth reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain                   | 24        |
| Cadw cofnodion                                                                 | 25        |
| <b>4. Arferion annerbyniol</b>                                                 | <b>26</b> |
| <b>Atodiad 1: Amlinelliad o'r fframwaith gyfreithiol</b>                       | <b>27</b> |
| <b>Atodiad 2: Cysylltiadau defnyddiol</b>                                      | <b>31</b> |

# 1. Cyflwyniad

## Am y canllawiau hyn

Cyhoeddir y canllawiau hyn wrth arfer dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo addysg pobl Cymru<sup>1</sup> a'u grym mewn perthynas â hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru<sup>2</sup>. Mae'n rhoi cyngor i gyrrff llywodraethu a staff ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig, ysgolion cynradd a gynhelir; i bwyllgorau rheoli a staff unedau cyfeirio disgyblion; ac i awdurdodau lleol ar gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yng Nghymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys canllawiau statudol ar gyfer:

- cyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir o dan adran 175(4) Deddf Addysg 2002<sup>3</sup> o ran y trefniadau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud (o dan adran 175(2)) i sicrhau bod eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymddygiad yn yr ysgol yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol. Mae'r canllawiau statudol hyn yn ymwneud â'r trefniadau mewn perthynas â disgyblion ag anghenion gofal iechyd ac nid ydynt yn effeithio ar y trefniadau y gallai fod angen i'r corff llywodraethu eu gwneud mewn perthynas â disgyblion eraill neu ddisgyblion yn gyffredinol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd o dan adran 175(2). Mae'n un o'r gyfres o ganllawiau a gyhoeddir o dan adran 175 y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt;
- awdurdodau lleol o dan adran 19(4A) Deddf Addysg 1996<sup>4</sup> mewn perthynas â pha drefniadau a wnânt ar gyfer darparu addysg addas ar gyfer unrhyw berson ifanc o dan adran 19(4) o Ddeddf Addysg 1996. Ceir y canllawiau statudol hyn ar dudalen 17, ac mae'n ymwneud â sefyllfa pan mai iechyd yw'r rheswm pam na fyddai'r person ifanc yn cael addysg addas fel arall.

Lle mae'r testun yn cynnwys canllawiau statudol, mae'n cael ymddangos mewn **ffont trwm**. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r corff llywodraethu gymryd y canllawiau hynny i ystyriaeth wrth gyflawni'r swyddogaeth statudol ac, os ydynt yn penderfynu peidio â gwneud hynny, rhaid fod ganddynt resymau clir y gellir eu cyfiawnhau dros wneud hynny.

Mae gweddill y testun yn naill ai cyngor anstatudol neu'n crynhoi'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn.

<sup>1</sup> Adran 10 Deddf Addysg 1996 (<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/10>). Mae swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 10 mewn perthynas â Chymru wedi cael ei drosglwyddo i weinidogion Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) Gorchymyn 1999 (O.S. 199/672) a Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 11).

<sup>2</sup> Adran 60 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/60>).

<sup>3</sup> Rhoddwyd y pŵer hwn i roi cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru (yn hytrach na Chynulliad Cenedlaethol Cymru) yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

<sup>4</sup> Mae'r pŵer hwn i roi cyfarwyddyd bellach wedi'i roi i Weinidogion Cymru (yn hytrach na'r Ysgrifennydd Gwladol) yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 199/672 a pharagraff 30 o Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae gan bob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd eu hawl i addysg lawn ac mae ganddynt yr un hawliau derbyn â dysgwyr eraill. Gall llawer o ddysgwyr sydd ag angen gofal iechyd hefyd fod yn anabl o dan y diffiniad a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a thrwy hynny ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu'r sefydliadau addysgol hyn gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf honno. Mae yna amryw ddyletswyddau dan y Ddeddf honno sy'n berthnasol yng nghyd-destun addysg; er enghraifft, peidio â gwahaniaethu yn erbyn person ag anabledd yn y trefniadau a wneir ar gyfer penderfynu i bwy y cynigir lle mewn ysgol. Mae yna hefyd ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ddysgwr sydd ag anabledd. Mae Atodiad 1 yn crynhoi'r prif rwymedigaethau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail i ategu ei pholisïau ynghylch plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r dull a amlinellir yn y canllawiau hyn yn seiliedig ar ac yn gyson â darpariaethau CCUHP: gan gynnwys bod gan blant yr hawl i addysg (Erthygl 28), ac y dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chefnogaeth arbennig fel eu bod yn gallu arwain bywydau llawn a gweddus (Erthygl 23).

Yn y ddogfen hon, mae'r term "lleoliad addysg" yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion. O ran unedau cyfeirio disgyblion, dylid darllen cyfeiriadau at gyrff llywodraethu fel cyfeiriad at y pwyllgor rheoli ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn nodi fel arall. Dylid darllen cyfeiriadau at 'bennaeth' mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion fel cyfeiriad at yr athro sy'n gyfrifol am yr uned. Mae gan y term 'rhiant' ei ystyr cyfraith addysg arferol: mae'n cwmpasu rhieni naturiol (boed yn briod ai peidio); unrhyw un arall sydd â chyfrifoldeb rhiant mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc; a gofalwyr (y rhai sy'n gofalu am blentyn neu berson ifanc). Mae arweiniad i ysgolion ddefnyddio'r diffiniad hwn: 'Rhieni a Chyfrifoldeb Rhiant: Canllawiau i Ysgolion' Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cylchlythyr Rhif 12/2007<sup>5</sup>.

Mae'r canllawiau yn disodli'r ddogfen *Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol* (Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif 003/2010). Mae'n amlinellu'r trefniadau allai fod yn ofynnol neu'n ddymunol i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, trefniadau a allai alluogi'r dysgwyr hyn i barhau â'u haddysg gyda'r amhariad lleiaf posibl.

Efallai y bydd y canllawiau hefyd o ddiddordeb i sefydliadau addysg bellach (AB). Maent yn ddefnyddiol pan fo sefydliadau AB yn gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol, gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau cymorth eraill fel y gallant gefnogi pobl ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd yn effeithiol. Er nad yw'r canllawiau wedi'u cyfeirio at sefydliadau AB, gall sefydliadau ei chael hi'n ddefnyddiol i gyfeirio at y canllawiau hyn wrth ddatblygu eu polisïau/trefniadau eu hunain ar gyfer cefnogi dysgwyr o'r fath.

---

<sup>5</sup> <http://gov.wales/pubs/circulars/2007/nafwc1307/circularw.pdf?lang=cy>

## **Egwyddorion cyffredinol wrth ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr**

Bydd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ar ryw adeg angen gofal iechyd tymor byr a allai effeithio ar eu cyfranogiad yng ngweithgareddau cyffredinol yr ysgol. Bydd y rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn gallu mynychu eu lleoliad addysg yn rheolaidd, ac yn gallu cymryd rhan ym mwyafrif y gweithgareddau gyda'r gefnogaeth briodol. Fodd bynnag, ar gyfer nifer fechan o ddysgwyr, gall eu hanghenion gofal iechyd gael effaith sylweddol a pharhau'n hirach, gan effeithio ar eu gallu gwybyddol a chorfforol ac ar eu hymddygiad a'u cyflwr emosiynol ar sail mwy hirdymor.

**Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod trefniadau digonol yn cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Mae hyn yn cwmpasu polisïau a gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, a ddylai gynnwys y prosesau a ddefnyddir i gadarnhau pa gymorth sydd ei angen, yn ogystal â threfniadau penodol ar gyfer dysgwyr unigol. Dylai'r trefniadau hyn hefyd gael eu gwneud yn gydnaws â dyletswyddau diogelu ehangach a cheisio sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad a mwynhau'r un cyfleoedd.** Mewn rhai achosion, gall hyn olygu rhywfaint o hyblygrwydd o ran sut y caiff y cwricwlwm ei gyflwyno, er enghraifft, rhaglenni astudio rhan-amser a phresenoldeb ar y cyd â darpariaeth amgen a drefnir gan yr awdurdod lleol. **Dylai trefniadau hefyd ymdrin â sut y bydd dysgwyr yn cael eu hail-integreiddio yn ôl i mewn i'r lleoliad addysg ar ôl cyfnodau o absenoldeb.**

Wrth wneud eu trefniadau, dylai cyrff llywodraethu fod yn ymwybodol y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar bob unigolyn yn wahanol, a gallai'r gefnogaeth gan y lleoliad addysg gael effaith fawr ar ansawdd bywyd. **Felly, dylai cyrff llywodraethu sicrhau fod y sylw ar anghenion pob dysgwr unigol a sut mae eu hanghenion gofal iechyd yn effeithio ar eu bywyd addysgol. Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod eu trefniadau yn rhoi hyder i rieni a dysgwyr yng ngallu'r lleoliad addysg i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer anghenion y dysgwyr hyn. Dylai'r trefniadau ddangos dealltwriaeth o anghenion gofal iechyd y dysgwr a sut maent yn effeithio ar allu'r unigolyn i ddysgu. Dylai cynyddu gwybodaeth a hyder y dysgwr i reoli'n gynyddol eu hanghenion gofal iechyd eu hunain fod yn un o amcanion y trefniadau hyn, yn ddibynnol ar eu gallu i wneud hynny.**

Wrth wneud trefniadau i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gellir rhoi swyddogaethau penodol i'r corff llywodraethol ac i staff y lleoliad. Er y gellir gofyn am gefnogaeth gan bobl neu sefydliadau priodol o'r tu allan i'r lleoliad addysg, yn y pen draw mae'n rhaid i'r corff llywodraethu, wrth gyflawni ei swyddogaethau, hyrwyddo lles pob disgybl yn yr ysgol<sup>6</sup>.

Mae gallu'r lleoliad addysg i ddarparu cymorth effeithiol yn dibynnu, i ryw raddau, ar y trefniadau gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill. Mae trefniadau aml-asiantaethol rhwng ysgolion, colegau, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gweithwyr proffesiynol

---

<sup>6</sup>Rhan 21(5) o Ddeddf Addysg 2002. Gweler hefyd adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 - rhaid i gorff llywodraethu (ymhlith eraill) wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol, rhieni a dysgwyr, felly'n hollbwysig. **Dylai polisïau a gweithdrefnau gofal iechyd felly nodi'r trefniadau gweithio ar y cyd a dangos sut y byddant yn gweithio mewn partneriaeth i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.**

**Dylai'r corff llywodraethu ddatblygu trefniadau sy'n seiliedig ar yr egwyddorion cyffredinol canlynol (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):**

- *Mae staff yn deall ac yn gweithio o fewn egwyddorion cynwysoldeb*
- *Caiff gwersi a gweithgareddau eu cynllunio mewn modd sy'n caniatáu i'r rhai sydd ag anghenion gofal iechyd i gymryd rhan yn llawn.*
- *Mae staff yn deall eu rôl wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a chaiff hyfforddiant priodol ei ddarparu.*
- *Mae staff yn teimlo'n hyderus o ran gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng gofal iechyd.*
- *Mae staff yn ymwybodol o anghenion eu dysgwyr drwy rannu anghenion gofal iechyd y dysgwr unigol yn briodol.*
- *Pryd bynnag y bo modd, mae'r dysgwyr yn cael eu hannog a'u cefnogi i fod yn gyfrifol am reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.*

## **Fframwaith gyfreithiol**

Mae yna amryw ddyletswyddau ar gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau . Nid yw'r dyletswyddau yn ymwneud yn benodol â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd, ond efallai y byddant angen camau penodol mewn perthynas â dysgwyr o'r fath. Er enghraifft , mae gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ddyletswydd statudol i hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol. Gan y gall fod disgyblion ag anghenion gofal iechyd, yna efallai y bydd angen i'r corff llywodraethu gymryd camau i hybu lles y disgyblion hynny.

Mae'r dyletswyddau a darpariaethau cyfreithiol allweddol eraill sy'n berthnasol i ddarparu addysg i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1.

Pan fydd unrhyw un o'r canllawiau hyn yn statudol, fe ymddengys mewn **ffont trwm** (gweler 'Am y Canllawiau hyn' uchod) .

## **Preifatrwydd / cyfrinachedd**

Mae gwybodaeth sydd gan ysgol am anghenion gofal iechyd dysgwr yn ddata personol sensitif o dan Deddf Diogelu Data 1998, yn debygol o fod yn breifat a'i chadw'n gyfrinachol. Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod gwybodaeth am anghenion gofal iechyd unigol yn cael ei rannu a'i storio mewn modd sy'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.



## 2. Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd

**Dylai cyrff llywodraethu wneud trefniadau i gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr, a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n briodol ac yn effeithiol.**

**Dylai'r trefniadau hyn gynnwys polisi ar gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr.** Er y gallai hyn fod yn bolisi anghenion gofal iechyd unigol ysgol, dylai'r cysylltiadau â meysydd eraill fel iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf a diogelu hefyd gael eu hystyried. Byddai hyn yn rhoi canllaw hwylus a defnyddiol i gynorthwyo staff i ymateb i anghenion gofal iechyd dysgwyr.

Beth bynnag fo ffurf y trefniadau hyn, dylai cyrff llywodraethol ofyn am gyngor, fel y bo'n briodol, gan eu hawdurdod lleol, GIG Cymru, ac unrhyw weithwyr proffesiynol iechyd/gofal cymdeithasol perthnasol eraill. Ystyrir hefyd ei bod hi'n arfer da i gynnwys rhieni, dysgwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn natblygiad trefniadau anghenion gofal iechyd yr ysgol.

Mae gweddill y bennod hon yn amlinellu'r trefniadau y dylid eu rhoi ar waith i gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr.

### **Rolau a chyfrifoldebau**

**Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n rhan o'r trefniadau i gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yn glir ac yn ddealladwy i bawb sy'n gysylltiedig.** Nid yw'r rolau a amlinellir isod yn unigryw mewn unrhyw ffordd ac efallai y bydd eu hunion gyfrifoldebau yn wahanol o un lleoliad addysg i'r llall. Mae'r dyletswyddau cyfreithiol sy'n sail wedi' hamlinellu ymhellach yn Atodiad 1

#### **a) Awdurdodau lleol**

- dylent ddarparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad; gan gynnwys diwallu anghenion hyfforddi addas staff lleoliad addysg, gan sicrhau y gellir darparu'r gefnogaeth a nodir yn y Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn effeithiol.
- dylent weithio gyda lleoliadau addysg i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn derbyn addysg addas. Lle na fyddai dysgwr o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oherwydd eu hiechyd, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i wneud trefniadau i ddarparu addysg addas<sup>7</sup>. Os yw dysgwr dros yr oedran hwnnw, ond o dan 18 oed, gall yr awdurdod lleol wneud trefniadau o'r fath o dan yr amgylchiadau hyn.
- rhaid iddynt wneud trefniadau i hybu cydweithio rhwng gwahanol gyrff neu bersonau, sy'n cynnwys y bwrdd iechyd lleol ac Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal, gyda golwg ar wella, ymhlith pethau eraill, lles plant mewn perthynas â'u hiechyd corfforol a meddyliol, eu haddysg, hyfforddiant a hamdden<sup>8</sup>.

<sup>7</sup> Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996; <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/section/19>

<sup>8</sup> Adran 25 Deddf Plant 2004; <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/section/25>



## **b) Cyrff llywodraethu**

- rhaid iddynt gydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (er enghraifft, y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd os ydynt yn anabl)
- **dylent wneud trefniadau i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a dylent sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith a'u bod yn effeithiol wrth gefnogi anghenion y dysgwyr hyn. Dylai hyn gynnwys cael polisi ar anghenion gofal iechyd a ble mae'n briodol, cynlluniau gofal iechyd unigol ar gyfer dysgwyr penodol**
- **dylent sicrhau bod y trefniadau'n dynodi'r aelod o'r corff llywodraethol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu, monitro ac adolygu'r trefniadau anghenion gofal iechyd**
- **dylent sicrhau bod y trefniadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, megis; iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, asesiadau risg, mesurau diogelu a gweithdrefnau argyfwng**
- **dylent sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer delio ag argyfyngau gofal iechyd a digwyddiadau critigol, ar gyfer gweithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle.**
- **dylent sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu hyfforddi'n briodol**
- **dylent sicrhau bod yswiriant priodol ar waith, y cydymffurfir ag unrhyw o'i amodau (e.e. hyfforddi staff) a bod staff yn glir ynghylch beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.**

## **c) Penaethiaid.** Gan weithio gyda'r corff llywodraethu, dylai'r pennaeth sicrhau bod trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd eu dysgwyr yn cael eu datblygu'n ddigonol a'u gweithredu'n effeithiol. Gall hyn gynnwys:

- Gweithio gyda'r corff llywodraethol i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol perthnasol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn deall yn llawn y trefniadau sydd yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwr, y gweithredir arnynt a bod camau gweithredu yn cael eu cynnal. Mewn lleoliadau addysg mwy o faint, gallai fod yn fwy ymarferol i ddirprwyo'r gwaith o reoli anghenion gofal iechyd dysgwr o ddydd i ddydd i aelod arall o staff gaiff eu goruchwyllo'n uniongyrchol gan y pennaeth a bod hynny'n ffurfio rhan o'u trefniadau adrodd a goruchwyliaeth reolaidd.
- Ystyried pa staff perthnasol (gan gynnwys staff cymorth a chyflenwi), llywodraethwyr, rhieni a, lle bo'n briodol, dysgwyr eraill ddylai fod yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwr unigol, a'r trefniadau cyffredinol ar gyfer darparu cymorth; a bod staff a'r dysgwyr hynny yn deall yn llawn eu rôl yn eu gweithredu.

- Penodi aelod penodol o staff sy'n gyfrifol am ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd, cysylltu â rhieni, dysgwyr, y gwasanaeth hyfforddiant gartref, yr awdurdod lleol, y gweithiwr allweddol ac eraill sy'n ymwneud â gofal y dysgwr.
- Sicrhau bod nifer digonol o staff hyfforddedig ar gael i weithredu'r trefniadau a nodir yn yr holl Gynlluniau Gofal Iechyd Unigol (gweler pennod 3), gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd brys ac absenoldeb staff.
- Bod â'r cyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol.
- Gwirio gyda'r awdurdod lleol a yw gweithgareddau penodol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cynnwys yn briodol gan yswiriant a gwneud staff yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau i'r gweithgareddau perthnasol.
- Sicrhau bod pob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cysylltu'n briodol â'r gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion.
- Darparu adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd y dysgwyr.
- Sicrhau nad oes unrhyw ddysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael eu heithrio yn ddiangen o weithgareddau y maent yn dymuno cymryd rhan ynddynt.
- Rhoi gwybod i'r awdurdod lleol pan fydd dysgwr yn debygol o fod i ffwrdd o'r ysgol am gyfnod sylweddol; er enghraifft, tair wythnos (boed mewn un cam neu dros gwrs y flwyddyn academiaidd) oherwydd eu hanghenion gofal iechyd. Yn y pen draw, mae'r hyn sy'n cyfrif yn gyfnod o absenoldeb 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac a yw'r lleoliad yn gallu darparu addysg sy'n addas i'r dysgwr. Gall cyfnodau byrrach o absenoldeb fod yn sylweddol yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

**d) Athrawon / Staff Cymorth.** Efallai y gofynnir i unrhyw aelod o staff o fewn y lleoliad addysg i ddarparu cymorth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu oruchwylio weinyddu meddyginiaethau. Fodd bynnag, nid yw hi'n ofynnol i unrhyw aelod o staff weinyddu neu oruchwylio meddyginiaeth oni bai ei fod yn rhan o'u cytundeb, telerau ac amodau neu gynllun swydd sy'n foddhaol i'r ddwy ochr. Mae'r rôl hon yn hollol wirfoddol. Rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n darparu cymorth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd dderbyn hyfforddiant digonol ac addas a chyrraedd y lefel angenrheidiol o gymhwysedd cyn iddynt gymryd y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol at yr hyfforddiant a ddarperir i staff penodol sydd wedi gwirfoddoli neu sy'n cael eu contractio i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, dylai'r lleoliad addysg sicrhau bod staff yn:

- Ymwybodol o arwyddion, symptomau a sbardunau cyflyrau meddygol cyffredin sy'n peryglu bywyd a gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng, gan gynnwys gallu adnabod pobl cymorth cyntaf a bod yn barod i ofyn am eu cymorth os bydd argyfwng meddygol yn digwydd.

- Deall yn llawn bolisiau a threfniadau anghenion gofal iechyd y lleoliad addysg.
- Deall yn llawn weithdrefnau argyfwng y lleoliad addysg a bod yn barod i weithredu mewn argyfwng.
- Ymwybodol o ba ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd mwy difrifol neu gronig, a lle y bo'n briodol, yn gyfarwydd â Chynlluniau Gofal Iechyd Unigol y dysgwyr hyn (gweler pennod 3). Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i gyfathrebu â rhieni a beth yw'r sbardunau ar gyfer cysylltu â nhw, megis pan fydd y dysgwr yn sâl, yn gwrthod cymryd meddyginiaeth neu'n gwrthod gweithgareddau penodol oherwydd eu hanghenion gofal iechyd.
- Sicrhau nad oes unrhyw ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael eu gwahardd yn ddiangen o weithgareddau y maent yn dymuno cymryd rhan ynddynt gan gynnwys unrhyw deithiau/ymweliadau allanol; sicrhau bod dysgwyr sydd angen meddyginiaeth yn ei gael ei pan fyddant yn cymryd rhan a bod yna aelod hyfforddedig priodol o staff i gynorthwyo.
- Ymwybodol o faterion bwllo mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd a'u bod yn barod i ymyrryd yn unol â pholisi'r lleoliad.
- Cefnogi dysgwyr sydd wedi bod yn absennol o unrhyw gyfle ac yn eu cynorthwyo gyda dal i fyny ar waith a gollwyd.
- Ymwybodol y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar allu dysgwr i ddysgu a rhoi cymorth ychwanegol pan fo angen.
- Gweithio gyda rhieni a gwasanaethau arbenigol os yw dysgwr yn colli tir gyda'u gwaith oherwydd eu hanghenion gofal iechyd.

**e) Rhieni a dysgwyr.** Mae'n bwysig bod rhieni a dysgwyr yn cael eu cynnwys a'u bod yn rhan o'r dull cydweithredol o sicrhau bod anghenion gofal iechyd y dysgwr yn cael eu diwallu tra'u bod mewn addysg. Yn y rhan fwyaf o achosion, nhw fydd y cyntaf i roi gwybod i'r lleoliad addysg fod gan y dysgwr angen gofal iechyd.

Dylai rhieni:

- Fod yn rhan o ddatblygu ac adolygu Cynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr (os oes un), a lle bo'n briodol, dylai'r dysgwr hefyd fod yn cymryd rhan. Mae'n bosib mai'r rhiant a'r dysgwr sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu gwybodaeth am sut mae eu hanghenion gofal iechyd yn effeithio arnynt. Dylent fod yn rhan lawn o drafodaethau am sut y bydd anghenion gofal iechyd y dysgwr yn cael eu diwallu yn y lleoliad addysg, ac yn cyfrannu at ddatblygiad eu Cynllun Gofal Iechyd Unigol ac at gydymffurfio ag ef.
- Darparu gwybodaeth ddigonol a chyfredol i'r lleoliad addysg ynghylch anghenion gofal iechyd y dysgwr, gan gynnwys unrhyw ganllawiau ynglŷn â rhoi meddyginiaeth a/neu driniaeth a dderbynnir gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n eu trin. Pryd bynnag y bo modd, dylid annog dysgwyr a'u galluogi i reoli yn llawn eu hanghenion gofal iechyd eu hunain. Bydd amseriad a natur y trosglwyddo hwn yn cael ei arwain gan ofynion y dysgwr unigol, eu hanghenion gofal iechyd, oedran, a natur yr amgylchedd dysgu.

- Rhoi gwybod i'r lleoliad addysg pan fydd meddyginiaeth yn newid neu'n cael ei dirwyn i ben, neu pan fydd y dos neu'r dull o'i roi'n newid, a darparu'r meddyginiaethau perthnasol nad ydynt wedi mynd yn hen gyda chyfarwyddiadau ysgrifenedig o ran dos a gweinyddu.
- Sicrhau bod modd cysylltu ag oedolyn a enwebwyd bob amser a bod pob ffurflen angenrheidiol wedi'i chwblhau a'i llofnodi.

**f) Gwasanaethau Nyrsio Ysgolion GIG Cymru.** Mae gan bob lleoliad addysg fynediad at gyngor nyrsio ysgolion. Dylai'r lleoliad addysg fod yn ymwybodol o gwmpas a natur y gefnogaeth y gall y gwasanaeth nyrsio ysgolion ei gynnig. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnig cyngor ar ddatblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol.
- Cynorthwyo wrth adnabod yr hyfforddiant sydd ei angen ar y lleoliad addysg i weithredu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn llwyddiannus.
- Cefnogi staff i weithredu Cynllun Gofal Iechyd Unigol dysgwr drwy gyngor a chyswllt gyda gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector eraill.

## **Creu amgylchedd dysgu hygyrch**

**Dylai'r trefniadau mae cyrff llywodraethu yn eu gwneud sicrhau bod eu lleoliad yn gynhwysol ac yn hygyrch yn yr ystyr lawnaf i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd.** Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon ac addysgol a theithiau oddi ar y safle. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai lleoliadau addysg weithio o fewn yr egwyddorion ac arferion allweddol canlynol:

- **Teithiau undydd ac ymweliadau preswyl**  
**Dylai cyrff llywodraethu sicrhau fod y lleoliad addysg yn glir ynghylch yr angen i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn weithredol i gymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau ac i beidio ag atal cyfranogiad dysgwyr.**

Dylai staff fod yn ymwybodol o sut y gall anghenion gofal iechyd dysgwr effeithio ar gyfranogiad, a cheisio darparu ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n cynyddu lefel cyfranogiad y dysgwr<sup>9</sup>. Dylai staff ystyried sut i rannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd parti os oes angen ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle (yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a gan barchu hawl y dysgwr i breifatrwydd), a all gynnwys gwybodaeth am anghenion gofal iechyd dysgwyr, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth ychwanegol, meddyginiaeth neu offer sydd eu hangen.

<sup>9</sup> Gall y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb fod yn berthnasol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

- **Rhyngweithio Cymdeithasol**

**Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod cyfranogiad dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael ei ystyried yn ddigonol mewn gweithgareddau cymdeithasol strwythuredig a distrwythur,** megis yn ystod egwylliau, clwb brecwast, cynyrchiadau, clybiau ar ôl ysgol ac ymweliadau preswyl.

Dylai'r lleoliad addysg wneud yr holl staff yn ymwybodol o'r rhwystrau cymdeithasol y gall dysgwyr ag anghenion gofal iechyd eu profi a sut y gall hyn arwain at fwlio ac allgáu cymdeithasol.

- **Ymarfer Corff a Gweithgarwch Corfforol**

Dylai'r lleoliad addysg ddeall yn llawn bwysigrwydd pob dysgwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, a dylai staff wneud addasiadau priodol i chwaraeon a gweithgareddau eraill i'w gwneud yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys clybiau ar ôl oriau a chwaraeon tîm.

Dylai staff fod yn gwbl ymwybodol o anghenion gofal iechyd (a sbardunau posibl) eu dysgwyr, gan ymateb yn briodol os bydd dysgwr yn dweud eu bod yn teimlo'n sâl, a dylent bob amser ofyn am arweiniad wrth ystyried a ddylai'r dysgwr gymryd rhan mewn gweithgaredd neu beidio.

Dylid osgoi 'darpariaethau arbennig' ar wahân ar gyfer gweithgareddau penodol, gyda phwyslais yn lle hynny ar weithgareddau'n cael eu gwneud yn hygyrch i bawb. Lle mae'n ymddangos nad yw hyn yn bosibl, dylid ceisio cyngor gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd a chwaraeon a'r dysgwr.

Dylai staff hefyd ddeall eu bod hi'n briodol i rai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd gael meddyginiaeth neu fwyd gyda nhw yn ystod y gweithgaredd corfforol a dylid annog dysgwyr i'w cymryd pan fydd angen.

- **Asesiadau Risg**

Dylai staff fod yn glir pan fo angen asesiad risg. Dylent ddechrau gan ragosod cynhwysiant a chynnwys proses o chwilio am addasiadau neu weithgareddau amgen ynddynt yn hytrach na darpariaeth ar wahân.

Yn ogystal, mae dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i baratoi a gweithredu strategaethau a chynlluniau hygyrchedd<sup>10</sup>. Mae'r strategaethau a'r cynlluniau hyn yn delio â rhai materion sy'n ymwneud â chynyddu cyfranogiad gan ddisgyblion anabl. Fe'u disgrifir yn fanylach yn Atodiad 1.

---

<sup>10</sup>Atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010. I gael arweiniad ar y dyletswyddau statudol tebyg blaenorol:  
<http://gov.wales/dcells/publications/publications/circularsindex/04/disabledaccess/nafwc1504-w.pdf?lang=cy> en

## Rhannu gwybodaeth

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod trefniadau anghenion gofal iechyd - polisi/polisiâu ehangach yr ysgol a Chynlluniau Gofal Iechyd Unigol unrhyw ddysgwyr - yn cael eu cefnogi gan gyfathrebu glir i staff, rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill, er mwyn helpu i sicrhau eu gweithredu'n llawn.

- Dylai **athrawon a staff cymorth** gael mynediad at yr wybodaeth berthnasol, yn enwedig os oes posibilrwydd o argyfwng yn codi. Bydd sut y gwneir hyn yn dibynnu ar fath a maint y lleoliad a gallai gynnwys y dulliau canlynol:
  - Lle bo'n addas, ac yn dilyn caniatâd priodol, gellir defnyddio hysbysfwrdd mewn ystafell staff i ddangos gwybodaeth am anghenion risg iechyd uchel, staff cymorth cyntaf a thystysgrifau, gweithdrefnau brys, ac ati. Dylid nodi nad yw pob aelod staff yn defnyddio'r ystafell staff, gallai maint rhai lleoliadau addysgol wneud y math yma o rannu gwybodaeth yn anymarferol, ac ar bob adeg, rhaid ystyried hawl y dysgwr i breifatrwydd.
  - Gellir defnyddio mewnrwyd ddiogel lleoliadau addysg a chyfarfodydd staff i helpu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd y dysgwyr y mae ganddynt gysylltiad â nhw neu y gallant gael cysylltiad â nhw.
  - Dylai pob aelod staff cyflenwi a dros dro gael gwybod am y trefniadau anghenion gofal iechyd a'u cyfrifoldebau nhw.
- Dylai **Rhieni a dysgwyr** fod yn bartneriaid gweithredol, ac i gyflawni hyn, dylai'r lleoliad addysg wneud rhieni'n gwbl ymwybodol o'r gofal a gaiff eu plant. Dylai rhieni a dysgwyr hefyd fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau nhw. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai'r lleoliad addysg:
  - Wneud yn siwr bod eu polisi/polisiâu anghenion gofal iechyd ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch (e.e. ar-lein ac ar ffurf copi caled).
  - Cynnwys datganiad polisi cyffredinol ym mhrosbectws y lleoliad addysg.
  - Ystyried cynnwys dolen i'r polisi/polisiâu anghenion gofal iechyd wrth gyfathrebu â rhieni lle bo'n berthnasol; ac o fewn Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol y dysgwyr.
  - Cynnwys cynghorau myfyrwyr, 'Ysgolion Iach' a grwpiau dysgwyr eraill yn natblygiad trefniadau anghenion gofal iechyd y lleoliad, lle bo'n briodol. Dylai'r grwpiau hyn hefyd fod yn rhan o'r strategaeth i helpu dysgwyr i ddeall trefniadau/polisiâu anghenion gofal iechyd.
  - Lle bo'n briodol, rhoi gwybod i grwpiau ffrindiau a dysgwyr sy'n astudio ochr yn ochr â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd am gamau gweithredu yn achos argyfwng a pha rôl y gallant ei chwarae i leihau'r siawns o argyfwng yn digwydd. Dylai'r lleoliad addysg drafod gyda'r rhieni a'r dysgwr pa wybodaeth y gellir ei rhannu gyda'r grwpiau hyn.

## Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr

Dylai'r lleoliad addysg greu gweithdrefnau sy'n datgan rolau/cyfrifoldebau pawb sy'n rhan o adnabod, rheoli a gweinyddu anghenion gofal iechyd. Dylai'r dogfennau canlynol gael eu casglu a'u cynnal, lle y bo'n briodol:

1. Cysylltu â'r Gwasanaethau Brys
2. Cytundeb gan rieni i'r lleoliad addysgol weinyddu meddyginiaeth
3. Cytundeb gan bennaeth y lleoliad addysgol i roi meddyginiaeth
4. Cofnod o feddyginiaeth a roddwyd i ddysgwr unigol
5. Cofnod o feddyginiaethau a roddwyd i bob dysgwr
6. Cais i ddysgwr gario ei feddyginiaeth ei hun
7. Cofnod hyfforddi staff - rhoi meddyginiaethau

Mae'r ffurflenni/templedi uchod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae Pennod 3 y ddogfen gyfarwyddyd hon yn amlinellu rhai o'r prosesau uchod yn fanylach ac yn ymdrin â chreu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol.

## Storio a gweinyddu meddyginiaeth a dyfeisiau a mynediad atynt

**Dylai cyrff llywodraethol sicrhau bod polisi'r lleoliad addysg yn glir ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau. Bydd gweithdrefnau storio, mynediad a gweinyddu bob amser yn dibynnu ar gyd-destun y lleoliad addysg a gofynion y dysgwr; fodd bynnag, dylai'r egwyddorion cyffredinol canlynol gael eu hadlewyrchu.**

- **Cyflenwi meddyginiaeth neu ddyfeisiau.** Ni ddylai sefydliadau addysg storio llawer fawr iawn o feddyginiaeth. Dylid gofyn i rieni ddarparu cyflenwadau wythnosol o feddyginiaeth yn eu cynhwysydd gwreiddiol gydag enw'r dysgwr, enw'r cyffur, maint ac amllder y dos a'r dyddiad dod i ben. Efallai y bydd angen presgripsiwn ar wahân ar gyfer y feddyginiaeth i'w cymryd yn ystod oriau dysgu. Dylai lleoliadau addysg ddim ond derbyn meddyginiaethau a dyfeisiau sydd ar bresgripsiwn ac sydd:
  - Ddim yn hen
  - Wedi'u labeli
  - Yn dod â chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweinyddu, dos a storio
  - Yn y cynhwysydd gwreiddiol fel a weinyddir gan fferyllydd (ac eithrio inswlin sydd ar gael yn gyffredinol drwy gyfrwng pin neu bwmp inswlin yn hytrach na'r cynhwysydd gwreiddiol).
- **Storio, mynediad a gwaredu.** Er y dylai pob meddyginiaeth gael ei storio'n ddiogel, bydd math a defnydd y feddyginiaeth yn penderfynu sut mae hyn yn digwydd. Mae hefyd yn bwysig i ddysgwyr ag anghenion gofal



iechyd wybod ble mae eu meddyginiaeth yn cael ei storio a sut i gael gafael arno.

- **Oeri mewn oergell.** Mae angen oergell ar rai meddyginiaethau. Mae angen monitro tymheredd oergelloedd sy'n cynnwys meddyginiaeth yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn unol â gofynion y cyffuriau. Gall meddyginiaethau gael eu cadw mewn oergell sy'n cynnwys bwyd, ond dylent fod mewn cynhwysydd aerglos ac wedi'u labelu'n glir. Os oes angen i leoliad addysg storio symiau mawr o feddyginiaethau yna dylid ystyried oergell feddygol y gellir ei chloi.
  - **Meddyginiaeth argyfwng** . Rhaid i feddyginiaeth argyfwng fod ar gael yn rhwydd i ddysgwyr sydd ei angen bob amser yn ystod y dydd neu mewn gweithgareddau oddi ar y safle. Dylai meddyginiaethau a dyfeisiau fel pypiau asthma, mesuryddion profion glwcos yn y gwaed a phennau adrenalin fod ar gael yn hawdd i ddysgwyr ac nid dan glo. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'w ystyried y tu hwnt i safle'r lleoliad addysg e.e. ar deithiau. Os yw'r meddyginiaeth argyfwng yn gyffur rheoledig dylid ei gadw mor ddiogel ag y bo modd er mwyn lleihau'r risg o fynediad heb awdurdod tra hefyd yn caniatáu mynediad cyflym os gallai hyn fod yn angenrheidiol mewn argyfwng: er enghraifft, ni ddylai allwedd gael eu cadw'n bersonol gan aelod o staff. Gall dysgwr sydd wedi cael cyffur rheoledig ar bresgripsiwn ei gael yn eu meddiant yn gyfreithiol, os ydynt yn gymwys i wneud hynny, rhaid iddynt beidio â'i drosglwyddo i ddysgwr arall neu i berson arall sydd heb awdurdod. Gall monitro fod yn angenrheidiol. Pan fydd staff yn rhoi meddyginiaeth argyfwng i ddysgwr, dylid cofnodi hyn.
  - **Meddyginiaeth mewn achos nad yw'n argyfwng.** Dylai pob meddyginiaeth nad yw'n argyfwng yn gael ei gadw mewn lle diogel gyda rheolaeth tymheredd neu olau priodol. Os yw'n gyffur rheoledig, gallai mesurau a rheolaethau diogelwch ychwanegol fod yn ddoeth.
  - **Gwaredu meddyginiaethau.** Pan nad oes eu hangen mwyach, dylai meddyginiaethau gael eu dychwelyd i'r rhieni i drefnu eu gwaredu'n ddiogel. Os nad ydynt ar gael, dylai'r meddyginiaethau gael eu rhoi i fferyllfa leol. Mae'n rhaid i flychau nodwyddau gael eu defnyddio bob amser ar gyfer cael gwared ar nodwyddau a chyfarpar miniog arall a'u gwaredu'n briodol.
- **Rhoi meddyginiaeth.**
- Os yw dysgwr o dan 16 oed, dylai pob meddyginiaeth (ar/heb bresgripsiwn) a weinyddir gan, a gyda chymorth, y lleoliad addysg ddim ond cael ei wneud gyda chaniatâd ysgrifenedig y rhiant. Dylai gweinyddu pob meddyginiaeth gael ei gofnodi.
  - Lle mae meddyginiaeth wedi'i rhagnodi i'w cymryd mewn amllder sy'n caniatáu i'r cwrs dyddiol o feddyginiaeth gael ei roi yn y cartref, dylai rhieni geisio gwneud hynny.
  - Ni ddylid byth rhoi aspirin neu ei ddeilliadau i ddysgwyr o dan 16 oed oni ragnodir iddynt.

- Oni bai bod cynllun y cytunwyd arno i'r dysgwr roi meddyginiaeth i'w hunain, dylai pob meddyginiaeth gael ei rhoi gan aelod staff. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen goruchwyliaeth yn unol â'r CGIU.
- Dylai meddyginiaeth gael ei rhoi gan staff sydd wedi cael hyfforddiant addas yn unig. Dylai'r staff wirio y dos uchaf a phryd/a roddwyd dos blaenorol.
- Efallai y bydd gweithdrefn rhai meddyginiaethau yn gofyn am eu rhoi gan oedolyn o'r un rhyw â'r dysgwr, ac yn ddelfrydol bod ail oedolyn yn dyst i hyn. Dylai hyn gael ei gytuno a'i adlewyrchu yn y Cynllun Gofal Iechyd Unigol.
- Os oes gan y lleoliad addysg bolisi Gofal Personol<sup>11</sup>, yna dylid ei ddilyn<sup>12</sup>.
- Os yw dysgwr yn gwrthod eu meddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau diffiniedig gan hysbysu'r rhieni cyn gynted ag y bo modd. Os bydd unrhyw ddysgwr yn camddefnyddio unrhyw feddyginiaeth, dylid rhoi gwybod i'w rhieni cyn gynted â phosibl a dylai'r lleoliad addysg hefyd ofyn i rieni geisio cyngor gofal iechyd fel y bo'n briodol. Os na ellir cysylltu â'r rhieni yn syth, efallai y bydd angen i staff geisio cyngor gofal iechyd ar unwaith.
- Dylai staff sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth fod yn gyfarwydd â phwnc cydsyniad i driniaeth. Mae rhagor o wybodaeth am hyn gan Lywodraeth Cymru i'w gweld ar-lein<sup>13</sup>.
- Dylai pob aelod o staff sy'n cefnogi ymweliadau oddi ar y safle fod yn ymwybodol o ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylent dderbyn yr wybodaeth sydd ei hangen er mwyn sicrhau bod staff yn gallu hwyluso profiad cyfartal i'r dysgwr. Gallai'r wybodaeth hon gynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gymorth angenrheidiol ychwanegol arall, gan gynnwys meddyginiaeth ac unrhyw offer angenrheidiol.

## **Gweithdrefnau argyfwng**

**Dylai cyrff llywodraethu sicrhau y caiff polisïau eu gwneud ar gyfer gweithdrefnau argyfwng yn nodi'r hyn ddylai ddigwydd mewn argyfwng.**

Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o bwy sy'n gyfrifol am gynnal gweithdrefnau argyfwng pe bai angen, gan gynnwys gweithdrefnau argyfwng ar gyfer yr anghenion gofal iechyd mwyaf cyffredin, yn ogystal â manylion cyswllt gwasanaethau iechyd brys lleol, h.y. Galw Iechyd Cymru, ayb

<sup>11</sup> Gellir diffinio gofal personol yn unrhyw ofal sy'n golygu ymolchi neu wneud rhywbeth i rannau personol y byddai'r rhan fwyaf o bobl fel arfer yn ei wneud eu hunain, ond nad yw rhai disgyblion yn gallu'i wneud oherwydd eu hoed ifanc, anawsterau corfforol neu anghenion arbennig eraill. Mae enghreifftiau yn cynnwys gofal sy'n gysylltiedig ag ymataliaeth a rheolaeth mislif yn ogystal â thasgau o ddydd i ddydd megis cymorth i ymolchi, mynd i'r tŷ bach neu wisgo. Mae hefyd yn cynnwys goruchwyllo disgyblion sy'n ymwneud â hunan-ofal personol.

<sup>12</sup> <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/270813-draft-guidance-en.pdf>

<sup>13</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/465/WHC%282008%29010.pdf>

Pan fydd gan ddysgwr Gynllun Gofal Iechyd Unigol, dylai ddiffinio'n glir beth yw argyfwng ac egluro beth i'w wneud, gan gynnwys sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn ymwybodol o symptomau a gweithdrefnau argyfwng. Dylai dysgwyr eraill yn y lleoliad addysg hefyd wybod beth i'w wneud mewn termau cyffredinol mewn argyfwng, megis rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith.

Os oes angen cymryd dysgwr i'r ysbyty, dylai aelod o staff aros gyda'r dysgwr nes fod rhiant yn cyrraedd; mae hyn yn cynnwys eu hebrwng mewn ambiwlans i'r ysbyty. Dylai fod gan yr aelod o staff fanylion unrhyw anghenion gofal iechyd a meddyginiaeth hysbys.

## **Hyfforddiant**

**Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod eu polisïau yn nodi'n glir sut y bydd staff yn cael eu cefnogi i gyflawni eu rôl wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai cyrff llywodraethu hefyd sicrhau bod staff sy'n gwirfoddoli neu sydd o dan gcontract i roi meddyginiaeth yn derbyn hyfforddiant priodol.**

Wrth gynorthwyo dysgwyr gyda'u hanghenion gofal iechyd, caiff agwedd synnwyr cyffredin ei annog. Ar gyfer llawer o ymyriadau, nid oes angen unrhyw hyfforddiant arbenigol a rôl staff yw hwyluso'r dysgwr i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.

Efallai y bydd Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn cynnwys anghenion cymhleth sy'n gofyn i staff gael gwybodaeth a hyfforddiant penodol.

Dylai'r hyfforddiant a ddarperir fod yn ddigonol er mwyn sicrhau bod staff yn gymwys, â'r hyder yn eu gallu eu hunain i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, ac i gyflawni'r gofynion a nodir yn y CGIU. Yn hanfodol, efallai y bydd yr hyfforddiant hwn hefyd yn cynnwys mewnbwn gan y rhieni a'r dysgwyr eu hunain. Bydd y teulu a'r dysgwr yn aml yn chwarae rhan bwysig o ran darparu staff addysg â gwybodaeth berthnasol am sut y gall anghenion y dysgwr gael eu cwrdd. Fodd bynnag, ni ddylid dibynnu ar rieni i fod yr unig hyfforddwr ar gyfer diwallu anghenion gofal iechyd eu plentyn.

Os oes gan ddysgwr anghenion cymhleth, efallai y bydd angen mewnbwn gan wasanaethau gofal iechyd a'r awdurdod lleol, a fydd yn gallu rhoi cyngor ar ofynion hyfforddiant a chefnogaeth bellach.

Yr anghenion gofal iechyd mwyaf cyffredin a allai fod angen cymorth hyfforddi yw asthma, diabetes, epilepsi, ecsema, adweithiau alergaidd difrifol, rheoli sylw, a ffibrosis systig.

Gall pob aelod staff, p'un a ydynt wedi gwirfoddoli i gynorthwyo neu gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd ai peidio ddod i gysylltiad â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Felly, mae'n ddoeth bod yr holl staff yn meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o gyflyrau cyffredin i sicrhau bod staff yn adnabod symptomau ac yn gwybod ble i geisio cymorth priodol.

Dylai'r lleoliad addysg hefyd nodi polisi/polisïau ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth fel bod yr holl staff yn ymwybodol o bolisi/bolisïau anghenion gofal iechyd y lleoliad a'u rôl wrth weithredu'r trefniadau hynny. Dylai trefniadau sefydlu ar gyfer staff newydd a staff dros dro gael eu cynnwys.

Dylai'r hyfforddiant gynnwys pa fesurau ataliol a brys sy'n bodoli fel y gall staff adnabod a gweithredu'n gyflym pan fydd problem yn codi.

Os nad yw aelod hyfforddedig o staff sydd fel arfer yn gyfrifol am weinyddu meddyginiaeth ar gael, dylai Cynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwyr nodi sut bydd trefniadau amgen i ddarparu'r cymorth yn digwydd. Mae angen mynd i'r afael â hyn yn yr asesiad risg a'r cynllun ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle.

## **Arholiadau cymhwyster ac asesiadau cwricwlwm cenedlaethol**

Mae cyswllt effeithlon ac effeithiol yn hanfodol pan fydd dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn agosáu at asesiadau, gan gynnwys y rheiny sy'n sefyll arholiadau yn yr ysbyty. Gall yr elfen gwaith cwrs eu helpu i gadw i fyny â'u cyfoedion mewn ysgolion. Efallai y bydd yr athrawon cartref ac ysbyty yn gallu trefnu i ganolbwyntio ar yr elfen hon i leihau colli dysgu tra'u bod yn methu â mynychu'r ysgol. Mae cyswllt rhwng yr ysgol a'r athro ysbyty neu'r athro cartref yn hollbwysig, yn enwedig lle mae'r dysgwyr yn symud o'r ysgol neu'r cartref i'r ysbyty yn rheolaidd.

Gall cyrff dyfarnu wneud trefniadau arbennig ar gyfer dysgwyr ag anableddau parhaol neu hirdymor ac anawsterau dysgu, anableddau dros dro, salwch ac anhwylderau, sy'n sefyll arholiadau cyhoeddus megis TGAU neu Safon Uwch. Dylid cyflwyno ceisiadau am drefniadau arbennig gan ysgolion i'r cyrff dyfarnu cyn gynted â phosibl. Mae canllawiau llawn ar yr amrywiaeth o drefniadau arbennig sydd ar gael a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud ceisiadau yn cael eu rhoi yng nghylchlythyrau'r Cyd-Gyngor Cymwysterau, 'Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol' ac 'Arweiniad i'r broses ystyriaeth arbennig', sydd ill dau ar gael o wefan y Cyd-Gyngor Cymwysterau.<sup>14</sup>

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol y gall rhai dysgwyr gael arholiadau ac asesiadau eraill yn llawn straen, a all waethygu rhai cyflyrau.

## **EOTAS – addysg addas heblaw yn yr ysgol**

Mae'r adran hon yn disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr o oedran ysgol gorfodol na fyddant, oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, efallai yn cael addysg addas am gyfnod. Gallai hynny fod yn gefnogaeth addysg yn y cartref, yn yr ysbyty, neu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas mewn ysgol neu fel arall ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol na fyddant, oherwydd salwch, yn derbyn addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud. Ar gyfer dysgwyr sy'n hŷn ond o dan 18 oed, mae gan yr awdurdod lleol y pŵer i wneud hynny yn yr amgylchiadau hynny.<sup>15</sup> Mae'r adran hon yn ymwneud â dysgwyr o oed ysgol gorfodol - ar gyfer dysgwyr hŷn, gweler yr adran nesaf.

<sup>14</sup> <http://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration>

<sup>15</sup> Adran 19(1) a (4) yn y drefn honno o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r darpariaethau hynny hefyd yn berthnasol pan na fydd y dysgwyr yn derbyn addysg addas oherwydd amgylchiadau eraill.

Dylai anghenion addysgol dysgwr sydd yn methu mynychu ysgol oherwydd eu hanghenion gofal iechyd gael eu nodi, a derbyn cymorth addysgol yn gyflym fel eu bod yn parhau i gael eu darparu ag addysg addas. Mae hyn yn golygu addysg effeithlon sy'n addas ar gyfer oedran, gallu, dawn y plentyn neu'r person ifanc, ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan y person. Nid yw adnoddau'r awdurdod lleol yn berthnasol i'r cwestiwn o beth yw addysg addas. Dylai natur y ddarpariaeth fod yn ymatebol i ofynion yr hyn a all fod yn statws iechyd sy'n newid.

Mae'n annhebygol y bydd angen i'r awdurdod lleol ddarparu addysg yn y cartref ar gyfer dysgwyr sy'n sâl am gyfnodau byr iawn o amser, gan y dylai eu lleoliad addysg allu darparu unrhyw gefnogaeth briodol fel bod y dysgwr yn parhau i dderbyn addysg addas. Fodd bynnag, dylent ystyried y ffordd y mae'r absenoldeb yn debygol o effeithio ar y dysgwr wrth iddo/i ddychwelyd i addysg. Yn achos absenoldeb byr, (sy'n debygol o bara am lai na 15 diwrnod ysgol), dylai ysgol y dysgwr ddarparu gwaith i'w gwblhau yn y cartref, os yw cyflwr y dysgwr yn caniatáu hynny, a chefnogi'r dysgwr i ddal i fyny ar ôl iddynt ddychwelyd. Dylai'r awdurdod lleol fod yn barod i wneud trefniadau ar gyfer dysgwyr mewn achosion lle mae'n amlwg bod y dysgwr yn debygol o fod yn absennol o'r ysgol am gyfnod sylweddol: e.e. mwy na 15 diwrnod, yn olynol neu gronnus dros ystod blwyddyn academaidd. Fodd bynnag, efallai y bydd dal angen i'r awdurdod lleol wneud trefniadau os rhagwelir absenoldeb byrrach, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Lle bo absenoldebau'n cael eu rhagweld neu'n hysbys ymlaen llaw, dylai cyswllt agos rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol alluogi'r ddarpariaeth amgen i'w darparu o ddechrau'r absenoldeb.

Dylai'r awdurdod lleol gymryd i ystyriaeth unrhyw gyfnod o addysg a ddarperir yn yr ysbyty wrth ystyried a oes angen iddo ddarparu addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer dysgwr a beth i'w ddarparu. Os bydd y dysgwr wedi bod yn yr ysbyty ac wedi derbyn hyfforddiant yno, gall eu cynnydd a'u profiadau cwricwlaidd fod yn wahanol i rai eu cyfoedion yn yr ysgol. Er hynny, dylid sicrhau bod cymaint o barhad ag y bo modd yn cael ei roi. Dylai'r awdurdod lleol ddarparu cymaint o wersi ag y mae cyflwr y dysgwr yn ei ganiatáu, ac fel sy'n fuddiol, gan gymryd i ystyriaeth yr hyn sy'n addas ar gyfer y dysgwr hwnnw. Efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr sydd ar gwrs sy'n arwain at gymwysterau.

Dylai fod gan yr awdurdod lleol bolisi ysgrifenedig ynghylch addysg heblaw yn yr ysgol ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai polisïau gynnwys trefniadau ar gyfer y gwasanaeth a'r ffordd y mae'n cael ei staffio; amseriad y ddarpariaeth; a pherson a enwir y dylai rhieni, athrawon ysbyty ac eraill gysylltu â nhw. Dylai'r polisi wneud cysylltiadau â gwasanaethau cysylltiedig yn yr awdurdod lleol megis y rhai ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig a gwasanaethau cefnogi eraill awdurdodau lleol, seicolegwyr addysg, y Gwasanaeth Lles Addysg ac UCD.

Dylai monitro a gwerthuso addysg heblaw yn yr ysgol fod yn elfen allweddol yn strategaethau'r awdurdod lleol. Dylent geisio sicrhau fod datblygiadau newydd

yn cael eu mabwysiadu, bod lefelau addysg o safon ddigonol a bod darpariaeth yn cynrychioli gwerth da am arian.

Mae cydweithredu rhwng addysg, iechyd a staff gweinyddol yn yr ysbyty hefyd yn hanfodol. Sicrhau'r budd mwyaf posibl ar gyfer addysg ac iechyd y plentyn neu berson ifanc ddylai'r nod fod, a ddylai gynnwys creu awyrgylch sy'n gydnaws â dysgu effeithiol.

Mae cyswllt agos rhwng athrawon cartref/ysbyty ac athrawon prif ffrwd yn sail i ddarparu rhaglen addysgol effeithiol ar gyfer y dysgwyr; fodd bynnag, gall rhieni hefyd fod yn gyswllt gwerthfawr.

Gall dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd cymhleth gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chynllun gofal ysgrifenedig; lle bo hyn yn digwydd, dylai'r cynllun gofal ysgrifenedig gael ei integreiddio i mewn i unrhyw Gynllun Gofal Iechyd Unigol.

## **Dysgwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol**

**Dylai awdurdodau lleol fel arfer drefnu addysg barhaus ar gyfer pobl ifanc dros oedran ysgol gorfodol, ond llai na 18 oed lle, oherwydd salwch, mae angen i'r dysgwr astudio ymhellach i gwblhau cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau, a fyddai fel arall wedi cael eu cwblhau cyn i'r dysgwr gyrraedd oedran gadael ysgol gorfodol.**

## **Integreiddio**

Mae cyswllt agos rhwng tiwtoriaid cartref/athrawon ysbyty ac athrawon prif ffrwd yn sail i ddarparu rhaglen addysgol effeithiol ar gyfer y dysgwyr; gall rhieni hefyd fod yn gyswllt gwerthfawr.

Bydd gan y lleoliad addysg ran allweddol i'w chwarae yn integreiddio llwyddiannus, neu ailintegreiddio, dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd a dylai fod yn rhagweithiol wrth weithio gyda'r holl asiantaethau, gan gynnwys sicrhau bod cyfoedion yn ymwneud â chefnogi pontio'r dysgwr. Dylai cynlluniau ar gyfer ailintegreiddio gael eu gytuno gan yr holl bartïon allweddol cysylltiedig.

Mae'n rhan o rôl yr athro i ailsefydlu dysgu ac i gadw addysg yn fyw ar gyfer y dysgwr os yw unrhyw darfu ar addysg i'w reoli.

### **○ Rhyddhau o'r Ysbyty**

Pan fydd dysgwr yn treulio amser yn yr ysbyty, dylai gwybodaeth briodol gael ei darparu i rieni, ar ôl rhyddhau'r dysgwr, a allai wedyn gael ei rannu gyda'r ysgol i sicrhau trosglwyddiad esmwyth yn ôl i mewn i'r lleoliad addysg. Dylai'r ysgol gysylltu â'r gwasanaeth hyfforddiant cartref neu wasanaeth hyfforddiant yr ysbyty, fel y bo'n briodol. Dylai'r rhai sy'n gweithio'n agos gyda'r dysgwr a'u cynnydd addysgol fod ar gael i roi cyngor yn ôl yr angen ar newidiadau posibl yn iaith, cof a sgiliau trefnu y dysgwr ac ar ffyrdd o weithio gyda'r dysgwr.

Lle mae ysbytai yn rhoi rhybudd o ryddhau ymlaen llaw, mae'n ddefnyddiol os yw rhieni yn cyfathrebu hyn i'r ysgol cyn gynted ag y bo modd, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am ei g/chyflawniadau a chynnydd addysgol yn yr ysbyty.

Gall ysbytai sydd â nyrs gyswllt gynnog cyngor i baratoi ysgol y dysgwr ar y ffordd orau i reoli eu dychwelyd. Gall hyn alluogi athrawon heb unrhyw brofiad o ddelio gyda chyflwr neu glefyd penodol i ymdrin ag ailintegreiddio yn effeithiol. Gall hefyd hyrwyddo dealltwriaeth y gall rhai mathau o salwch neu driniaethau greu problemau ymddygiad neu anawsterau gwybyddol. Gall cyswllt gyda nyrs sy'n arbenigo yng nghyflwr penodol y plentyn hefyd fod o fudd yn dilyn unrhyw ryddhau o'r ysbyty.

- **Ar ôl ail-integreiddio**

Mae'n ddefnyddiol i'r awdurdod drafod gyda'r dysgwr, ar ôl ail-integreiddio, i benderfynu ar effeithiolrwydd. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno defnyddio adborth o'r fath wrth werthuso eu polisïau a'u cefnogaeth. Dylai awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i ailintegreiddio dysgwr neu berson ifanc yn lleol - nid yn unig gan asiantaethau iechyd ac asiantaethau cyhoeddus eraill, ond hefyd sefydliadau preifat a gwirfoddol.

Mae'n bwysig nodi bod gwasanaeth allgymorth parhaus<sup>16</sup> ar ôl rhyddhau o'r ysbyty weithiau'n hanfodol i atal llithro'n ôl yn gynnar. Dylai athrawon ysbyty a staff dysgu sy'n darparu hyfforddiant yn y cartref, os yn berthnasol, fod yn ymwybodol o'u rôl wrth ailintegreiddio dysgwyr yn yr ysgol cyn gynted ag y bo modd a dylai awdurdodau lleol sicrhau bod Swyddogion Lles Addysg yn deall eu rôl mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd.

## **Cludiant i'r ysgol**

Mae dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol, penaethiaid a chyrrff llywodraethu mewn perthynas â dysgwyr sy'n teithio i'r man lle maent yn derbyn eu haddysg neu hyfforddiant.<sup>17</sup> Er enghraifft, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y bydd angen i awdurdodau lleol drefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwr, neu ddarparu hebryngwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gyfer teithiau o'r fath i hwyluso presenoldeb dysgwr. Ceir gwybodaeth ac arweiniad ar hyn yn y ddogfen *Canllawiau ar Ddarpariaethau Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol* (Mehefin 2014)<sup>18</sup>.

<sup>16</sup> Mae gwasanaeth allgymorth parhaus yn darparu rheolaeth cyflwr parhaus a chynngor yn dilyn rhyddhau o'r ysbyty

<sup>17</sup> Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

<sup>18</sup> Ar gael yn: <http://www.gov.wales/docs/det/publications/140616-ltogg-en.pdf>

## **Adolygu – polisïau, trefniadau a gweithdrefnau**

**Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod yr holl bolisïau; trefniadau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd** (e.e. bob blwyddyn, oni bai bod amgylchiadau yn cyfiawnhau hynny'n gynharach; gall bod angen adolygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn amlach gan ddibynnu ar yr angen gofal iechyd). **Dylai hyn gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys dysgwyr, rhieni, cynrychiolwyr Byrddau Iechyd a chyrff perthnasol eraill.**

## **Trefniadau yswiriant**

**Dylai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau bod lefel briodol o yswiriant ar gyfer gweithgareddau'r lleoliad wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.** Dylai lefel yr yswiriant adlewyrchu'n briodol lefel y risg. Efallai y bydd angen trefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau e.e. gweithgareddau oddi ar y safle ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol.

Rhaid i gynlluniau ariannol awdurdodau lleol mewn perthynas â chyllido ysgolion maent yn eu cynnal, ymdrin â materion yswiriant<sup>19</sup>. Dylai cyrff llywodraethu weithio gyda phenaethiaid i wirio'r cynllun a'r hyn a gwmpesir gan unrhyw yswiriant (er enghraifft, unrhyw un a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn unol â'r cynllun) ac ystyried a yw hyn yn ddigonol. Os digwydd y dylai gweithgareddau pellach gael eu cynnwys, dylai trefniadau ar gyfer hyn gael eu gwneud yn unol â'r cynllun. Dylid cydymffurfio ag unrhyw ofynion yr yswiriant (e.e. o ran hyfforddi aelodau'r staff).

## **Gweithdrefn cwynion**

Os nad yw'r dysgwr a/neu'r rhiant yn fodlon â threfniadau'r lleoliad addysg ar gyfer diwallu anghenion gofal iechyd y dysgwr, mae ganddynt hawl i wneud cwyn. Rhaid i'r corff llywodraethu hysbysebu trefn gwyno ffurfiol eu lleoliad.<sup>20</sup>

<sup>19</sup> Adran 48 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/31/section/48> a Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 O.S. 2010/824, rheoliad 26 ac Atodlen 4 - <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/824/contents/made>. Nid yw cynlluniau o'r fath yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion.

<sup>20</sup> Adran 29 Deddf Addysg 2002 - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/section/29>



### 3. Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)

Gall Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU) helpu i sicrhau fod lleoliadau addysg yn cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn effeithiol. **Felly, dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod eu polisïau yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer CGIU, gan nodi'n glir pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddatblygu'r cynlluniau o fewn y lleoliad addysg.** Mae CGIU yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud, pryd a gan bwy. Byddant yn aml yn hanfodol pan fo anghenion gofal iechyd yn gymhleth a lle mae risg uchel y bydd angen ymyriad brys. Maent hefyd yn debygol o fod yn ddefnyddiol mewn achosion eraill, yn enwedig pan fydd anghenion gofal iechyd dysgwr yn hirdymor. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd angen CGIU a dylai fod proses yn ei lle i benderfynu pa ymyriadau sydd fwyaf priodol. Isod mae diagram llif gwybodaeth yn amlinellu'r broses ar gyfer nodi a ddylid rhoi CGIU ar waith.

#### Adnabod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

- Wedi'u hadnabod o ffurflen gofrestru neu drwy lwybr arall.
- Rhiant neu'r dysgwr yn rhoi gwybod i'r lleoliad addysg am yr angen gofal iechyd
- Trafodaethau pontio



#### Casglu gwybodaeth

- Os gaiff angen posibl ar gyfer Cynllun Gofal Iechyd Unigol ei adnabod, trafod anghenion gofal iechyd y dysgwr gyda'r rhieni a/neu gyda'r dysgwr eu hunain er mwyn llywio'r penderfyniad ynghylch a ddylid paratoi CGIU.



#### Penderfynu a ddylai Cynllun Gofal Iechyd Unigol gael ei wneud

- Dylai lleoliadau addysg drefnu cyfarfod gydag aelodau priodol o staff, rhieni, y dysgwr, a chlinigwyr priodol i benderfynu a yw anghenion gofal iechyd y dysgwr yn gofyn am Gynllun Gofal Iechyd Unigol, neu a fyddai hyn yn amhriodol neu'n anghymesur. Os na ellir cael consensws, dylai'r pennaeth wneud y penderfyniad terfynol.



#### Os dylid gwneud Cynllun Gofal Iechyd Unigol

- Dylai lleoliadau addysg ddatblygu'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol mewn partneriaeth â'r holl bartïon priodol, gan gynnwys rhieni, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd perthnasol a'r dysgwr.
- Adnabod staff priodol i gefnogi'r dysgwr gan gynnwys adnabod unrhyw anghenion hyfforddi a ffynhonnell yr hyfforddiant.
- Gweithredu'r hyfforddiant.
- Cylchredeg y Cynllun Gofal Iechyd Unigol i bob unigolyn priodol.
- Gosod dyddiad adolygu priodol ac unrhyw sbardunau eraill ar gyfer adolygiad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig yn ymwneud â salwch tymor byr fel rhai sydd angen cwrs o wrthfotigau, efallai na fydd Cynllun Gofal Iechyd Unigol manwl yn angenrheidiol.

Mewn amgylchiadau o'r fath gall fod yn ddigon i ddim ond cofnodi manylion y feddyginiaeth, dos, amser gweinyddu ac unrhyw sgîl-ffeithiau posibl. Dylai'r gweithdrefnau syml hyn gael eu cadarnhau yn ysgrifenedig rhwng y dysgwyr (lle bo'n briodol), y rhieni a'r lleoliad addysg.

## **Rolau a chyfrifoldebau wrth greu a rheoli CGIU**

Dylai fformat CGIU fod yn ddigon hyblyg i alluogi'r lleoliad addysg i ddewis pa gamau sydd fwyaf effeithiol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu bodloni. Dylai'r CGIU fod yn hygyrch i bawb sydd angen cyfeirio ato, tra'n cynnal y lefelau gofynnol o breifatrwydd. Dylai pob cynllun gasglu'r wybodaeth a'r camau allweddol sydd eu hangen i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol. Efallai y bydd datblygiad CGIU manwl yn cynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Unrhyw leoliad addysg blaenorol
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol
- Gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol
- Y pennaeth a/neu'r unigolyn cyfrifol a ddirprwyir ar gyfer anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad
- Rhieni
- Y dysgwr
- Athrawon a staff cefnogi
- Unrhyw unigolion sydd â rolau perthnasol fel Cydgysylltydd Cymorth Cyntaf, swyddog Lles, a/neu'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCo)

Er y dylai'r cynllun gael ei deilwra i bob dysgwr unigol, gallai gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Manylion yr angen gofal iechyd
- Gofynion penodol e.e. gofynion dietegol, rhagofalon cyn-weithgaredd
- Gofynion Meddyginiaeth e.e. dos, sgîl-ffeithiau, gofynion storio, trefniadau ar gyfer gweinyddu
- Camau gofynnol
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Y rôl y gall y lleoliad addysg ei chwarae e.e. rhestr o bethau i fod yn ymwybodol ohonynt
- Dyddiadau adolygu a sbardunau adolygu
- Rolau staff penodol yn yr ysgol e.e. pwynt cyswllt i rieni, staff sy'n gyfrifol am weinyddu / goruchwylio meddyginiaeth a threfniadau ar gyfer cyflenwi os ydynt yn absennol.
- Materion cydsynio / preifatrwydd - gyda phwy y gall gwybodaeth sensitif gael ei rhannu, ayb
- Anghenion hyfforddi staff
- Cadw cofnodion: sut y caiff ei wneud, a pha wybodaeth gaiff ei chyfleu i eraill

Nod y cynllun yw cynnwys y camau sydd angen eu cymryd i helpu dysgwr i reoli eu cyflwr a goresgyn unrhyw rwystrau posibl iddynt gymryd rhan lawn mewn addysg. Dylai'r rhai sy'n dyfeisio'r cynllun gytuno pwy fydd yn arwain y gwaith o ysgrifennu'r cynllun, ond mae'r cyfrifoldeb am sicrhau y caiff ei gwblhau a'i roi ar waith yn aros gyda'r lleoliad addysg.

**Dylai cyrff llywodraethol sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, o leiaf bob blwyddyn; neu cyn hynny, petai tystiolaeth newydd bod anghenion y dysgwr wedi newid. Dylid eu datblygu gyda lles y dysgwr mewn golwg a sicrhau bod y lleoliad addysg yn asesu'r risgiau i addysg, iechyd a lles cymdeithasol y dysgwr.**

Os oes gan ddysgwr Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), dylai'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol gael ei gysylltu neu fod ynghlwm wrth unrhyw Gynllun Addysg Unigol, Datganiad AAA, neu Gynllun Dysgu a Sgiliau.

## **Cydlynu gwybodaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y dysgwr a rhieni**

Bydd y modd y mae anghenion gofal iechyd dysgwyr unigol yn cael eu dosbarthu, a'u cydlynu â gweithwyr proffesiynol cymdeithasol a gofal iechyd yn dibynnu'n fawr iawn ar ofynion dysgwyr unigol a natur y lleoliad addysg ei hun. Os oes gan y dysgwr CGIU, dylid nodi yn y ddogfen honno i bwy a sut y gwneir hyn gydag unigolyn wedi'i neilltuo i gyflawni'r dasg hon. Gall yr unigolyn hwn fod yn fan cyswllt cyntaf i rieni a staff, a byddai'n cysylltu ag asiantaethau allanol.

## **Rhannu gwybodaeth**

Mae'n eithriadol o bwysig bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd y dysgwyr y gallent ddod i gysylltiad â nhw, ac mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer unrhyw staff dros dro. Dylai pob aelod o staff sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r CGIU ar gyfer y dysgwyr hynny, lle bo'n briodol. Ni fydd anghenion gofal iechyd pob dysgwr yn golygu bod angen rhannu gwybodaeth o'r fath gyda'r holl staff, felly dylai hyn gael ei benderfynu ar sail achos wrth achos yn ôl risg ac ar ôl ystyried unrhyw faterion preifatrwydd. Dylid cyfathrebu gweithdrefnau argyfwng yn glir bob amser, fodd bynnag.

Bydd CGIU yn cynnwys gwybodaeth breifat/cyfrinachol am unigolion, gan gynnwys data sensitif personol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Er bod angen rhannu gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau, rhaid i rannu a storio y wybodaeth gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pheidio â thorri hawliau preifatrwydd yr unigolyn na'r ddyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus iddynt.

## **Rôl y dysgwr wrth reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain**

Mae'n bwysig, lle y bo'n bosibl, bod dysgwr ag angen gofal iechyd yn chwarae rhan ganolog wrth weinyddu eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.

Dylai dysgwyr sy'n gymwys i wneud hynny gael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu meddyginiaethau a'u gweithdrefnau eu hunain. Dylai hyn gael ei adlewyrchu o fewn CGIU y dysgwyr, yn ogystal ag amgylchiadau afiechydon tymor byr.

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai dysgwyr gael yr hawl i gario eu meddyginiaethau a dyfeisiau perthnasol eu hunain, neu dylent fod yn gallu cael mynediad at eu meddyginiaethau ar gyfer rhoi meddyginiaeth i'w hunain yn gyflym ac yn hawdd. Gall dysgwyr sy'n gallu cymryd eu meddyginiaethau eu hunain neu reoli'r gweithdrefnau fod angen lefel briodol o oruchwyliaeth. Dylai dysgwyr gael yr hawl i ddatblygu a chynyddu eu lefelau aeddfedrwydd o ran rheoli eu hanghenion gofal iechyd.

Os yw dysgwr yn gwrthod cymryd eu meddyginiaeth neu wneud gweithdrefn angenrheidiol, ni ddylai staff eu gorfodi i wneud hynny, ond yn hytrach ddilyn trefniadau diffiniedig y lleoliad a gytunwyd yn flaenorol yn y CGIU. Dylai rhieni gael gwybod cyn gynted â phosibl fel y gall trefniant amgen gael ei ystyried.

### **Cadw cofnodion**

Rhaid i bob gweinyddu cyffuriau gael ei gofnodi ar y ffurflenni priodol. Os yw dysgwr yn gwrthod eu meddyginiaeth, bydd staff yn cofnodi hyn ac yn dilyn y gweithdrefnau diffiniedig lle y bydd rhieni yn cael gwybod am y diffyg cydymffurfio hyn cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r enghreifftiau gorau o gadw cofnodion yn cynnwys systemau lle mae cofnodion anghenion gofal iechyd y dysgwyr yn gyfrifiadurol, ac yn caniatáu mynediad cyflym a hawdd gan y staff priodol. Gall systemau data hefyd ganiatáu mynediad hawdd i'r wybodaeth angenrheidiol gan staff sydd efallai wedi'u rhoi mewn ystafelloedd dosbarth lle nad ydynt yn gyfarwydd ag anghenion gofal iechyd y dysgwyr.

Rhaid sicrhau bod gweithredu systemau o'r fath yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

## 4. Arferion annerbyniol

Yn gyffredinol, nid yw hi'n arfer derbyniol i:

- atal dysgwyr rhag mynychu addysg oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, oni bai y byddai hyn yn debygol o achosi niwed i'r dysgwr, neu i eraill;
- atal dysgwyr rhag cael mynediad at eu hanadlwyr neu feddyginiaeth eraill yn hawdd, a'u rhwystro rhag cymryd eu meddyginiaeth pan a lle bo angen;
- cymryd yn ganiataol bod pob dysgwr gyda'r un cyflwr angen yr un driniaeth;
- anwybyddu barn y dysgwr neu eu rhieni/gofalwyr; neu anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd (er y gellir herio'r rhain);
- anfon dysgwyr ag anghenion gofal iechyd adref yn aml neu eu hatal rhag aros ar gyfer gweithgareddau arferol, gan gynnwys cinio, oni bai fod hyn wedi ei bennu'n briodol yn eu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol;
- anfon dysgwr sy'n mynd yn sâl neu sydd angen cymorth i ystafell feddygol/prif swyddfa ar eu pen eu hunain neu gyda rhywun anaddas;
- cosbi dysgwr am eu cofnod presenoldeb os bydd yr absenoldeb yn gysylltiedig â'u hanghenion gofal iechyd. Ni ddylai 'absenoldeb awdurdodedig' megis apwyntiadau gofal iechyd, amser i ffwrdd i adfer, ac ati gael ei ddefnyddio i gosbi dysgwr rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau neu dripiâu sy'n cael eu cymell gan gofnodion presenoldeb;
- rhwystro dysgwyr rhag yfed, bwyta neu gymryd seibiannau toiled neu seibiannau eraill pryd bynnag sydd ei angen er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd yn effeithiol;
- ei gwneud yn ofynnol i rieni/gofalwyr, neu wneud iddynt deimlo rheidrwydd fel arall i fynychu'r lleoliad addysg i roi meddyginiaeth neu ddarparu cymorth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys gyda materion tŷ bach;
- disgwyl i riant/gofalwr roi'r gorau i weithio neu ymrwymadau eraill oherwydd bod y lleoliad addysg yn methu wrth gefnogi anghenion gofal iechyd dysgwr; neu
- atal dysgwyr rhag cymryd rhan, neu greu rhwystrau diangen i ddysgwyr rhag cymryd rhan, mewn unrhyw agwedd ar eu bywyd addysgol, gan gynnwys teithiau e.e. drwy ei gwneud yn ofynnol i riant/gofalwr fynd gyda'r dysgwr.

## Atodiad 1: Amlinelliad o'r fframwaith gyfreithiol

Mae yna amryw ddyletswyddau ar ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n berthnasol i ddiogelu lles plant ag anghenion gofal iechyd yng nghyd-destun addysg. Mae'r prif ddarpariaethau wedi'u hamlinellu isod.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r gyfraith sy'n berthnasol i'r pwnc hwn. Nid yw chwaith yn ddatganiad neu ddisgrifiad awdurdodol o'r gyfraith, a all ond gael ei roi gan y llysoedd. Mae'r disgrifiadau isod yn grynodedau o'r prif ddarpariaethau perthnasol. Ar gyfer unrhyw ddyletswydd benodol, bydd darpariaethau statudol pellach a gall fod cyfraith achosion (ac o bosibl datblygiadau o'r fath ar ôl cyhoeddi'r canllaw hwn), sy'n effeithio ar ystyr y darpariaethau (e.e. diffinio termau), neu sut mae swyddogaeth i'w harfer (e.e. materion y mae'n rhaid i'r person sy'n arfer y swyddogaeth roi sylw iddynt). Ni ddylid dibynnu arno yn lle gofyn am gyngor cyfreithiol neu ddarllen yr union ddarpariaethau. Mae deddfwriaeth ar gael yn [www.legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk) er nad yw popeth mewn ffurf gyfredol ac wedi'i ddiwygio.

### Cyffredinol

Fel rhan o'r gyfraith gyffredin, mae'r rhai sy'n gyfrifol am ofal a goruchwylio plant, gan gynnwys athrawon, a staff eraill yr ysgol sy'n gyfrifol am blant, ddyletswydd gofal i weithredu fel y byddai unrhyw riant rhesymol ddoeth yn ei wneud mewn perthynas â'u plant eu hunain.

Gall person heb gyfrifoldeb rhiant dros blentyn, ond â gofal am y plentyn hwnnw, wneud yr hyn sy'n rhesymol yn holl amgylchiadau'r achos er mwyn diogelu neu hybu lles y plentyn. Mae hyn yn amodol, er enghraifft, ar orchymyn llys sy'n gwahardd cymryd camau penodol mewn perthynas â'r plentyn hwnnw heb ganiatâd y Llys. (*Adran 3(5) o Ddeddf Plant 1989*).

### Dyletswyddau statudol ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

- Wrth gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymddygiad yr ysgol, rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol. (*Adran 21(5) o Ddeddf Addysg 2002*) Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion gofal iechyd.
- Rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymddygiad yr ysgol yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant (h.y. y rhai o dan 18 oed) sy'n ddisgyblion yn yr ysgol. (*Adran 175(2) o Ddeddf Addysg 2002*)

Wrth ystyried pa drefniadau sydd eu hangen, dylai'r corff llywodraethu roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.<sup>21</sup> (*Adran 175(4) o Ddeddf Addysg 2002*)

- Mae cyrff llywodraethu hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* - gweler isod.

## **Dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol**

- Mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau cyffredinol mewn perthynas â darparu addysg ar gyfer eu hardal. (*yn enwedig rhannau 13 i 14, 15A, 15B o Ddeddf Addysg 1996*).
- Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas (yn yr ysgol neu fel arall) ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol na fyddent fel arall yn ei gael ar gyfer unrhyw gyfnod oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall. (*Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996*) Ar gyfer pobl ifanc (h.y. y rhai sydd dros oedran ysgol gorfodol, ond o dan 18 oed), mae gan awdurdodau lleol bŵer (yn hytrach na dyletswydd) i wneud trefniadau o'r fath yn yr amgylchiadau hynny. (*Adran 19(4) o Ddeddf Addysg 1996*) Wrth benderfynu pa drefniadau i'w gwneud o dan adran 19(1) neu (4) yn achos unrhyw blentyn neu berson ifanc, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant (h.y. dan 18 oed). (*Adran 175(1) o Ddeddf Addysg 2002*)

Wrth ystyried pa drefniadau sydd eu hangen, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.<sup>22</sup> (*Adran 175(4) o Ddeddf Addysg 2002*) Cyhoeddir rhai o'r canllawiau hyn o dan adran 175(4) - caiff ei farcio mewn print trwm.

- Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyffredinol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn angen o fewn eu hardal (ac i'r graddau sy'n gyson â hynny, hyrwyddo magwraeth y plant hynny gan eu teuluoedd) drwy ddarparu ystod a lefel o wasanaethau sy'n briodol i anghenion y plant hynny. (*Adran 17 o Ddeddf Plant 1989*)
- Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng gwahanol bobl a chyrff, gan gynnwys bwrdd iechyd lleol ar gyfer ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn yr ardal. Mae'r trefniadau yn cael eu gwneud gyda'r bwriad o:
  - wella lles plant o fewn yr ardal;

<sup>21</sup> Mae'r pŵer hwn bellach wedi'i freinio yng Ngweinidogion Cymru (yn hytrach na Chynulliad Cenedlaethol Cymru) yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

<sup>22</sup> Gweler troednodyn 1 uchod.

- (pan fydd diwygiadau a wnaed gan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn dod i rym) gwella ansawdd y gofal a chymorth i blant a ddarperir yn yr ardal;
- (pan ddaw'r diwygiadau hynny i rym) amddiffyn plant sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef cam-drin a niwed arall. (*Adran 25 o Ddeddf Plant 2004*).
- Mae *Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999 O.S. 1999/2* yn nodi gofynion (y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt) ynghylch cyfleusterau mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion o ran llety ar gyfer archwilio a thrin disgyblion yn feddygol a gofalu am ddisgyblion sy'n sâl neu wedi'u hanafu (*rheoliad 5*).
- Mae gan awdurdodau lleol hefyd ddyletswyddau o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* - gweler isod.

## **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae anabledd yn nodwedd warchodedig o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010*. Gall rhai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd fod yn anabl at ddibenion y *Ddeddf* honno; efallai na fydd eraill. Mae amrywiol ddyletswyddau o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* sy'n berthnasol yng nghyd-destun dysgwyr ag anghenion gofal iechyd sy'n anabl.

Rhaid i gorff sy'n gyfrifol am ysgol beidio â gwahaniaethu, aflonyddu nac erlid disgyblion anabl nac mewn rhai achosion, bersonau penodol eraill. Mae'r corff cyfrifol hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol. (*Adran 85 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010*)

Rhaid i awdurdodau lleol baratoi a gweithredu strategaeth hygyrchedd mewn perthynas ag ysgolion y maent yn gorff cyfrifol amdanynt. Mae hon yn strategaeth ar gyfer (dros gyfnod penodol):

- (a) cynyddu'r graddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwla'r ysgolion;
- (b) gwella amgylchedd ffisegol yr ysgolion er mwyn cynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu manteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgolion;
- (c) gwella darpariaeth gwybodaeth i ddisgyblion anabl sydd ar gael yn hawdd i ddisgyblion nad ydynt yn anabl. (*Paragraff 1 o Atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010*)

Rhaid i gorff sy'n gyfrifol am ysgol baratoi a gweithredu cynllun hygyrchedd. Mae cynllun o'r fath yn golygu yr un cynnwys â strategaeth hygyrchedd heblaw ei fod yn berthnasol i'r ysgol benodol. (*Paragraff 3 o Atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010*)



Mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir, y corff cyfrifol yw'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu. Mewn perthynas ag uned cyfeirio disgyblion, yr awdurdod lleol yw e.

Mae awdurdodau lleol a chorff llywodraethu sefydliadau addysgol a gynhelir gan awdurdod lleol (e.e. ysgolion a gynhelir) yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae hyn yn gofyn iddynt, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i faterion penodol yn ymwneud â chydraddoldeb. (*Adran 149*) Maent hefyd o dan ddyletswyddau penodol at ddiben galluogi gwell perfformiad o ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. (*Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 O.S.2011/1064*)

## **Darpariaethau perthnasol eraill**

Mae'r *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mae *Deddf Diogelu Data 1998* yn rheoleiddio prosesu data personol, sy'n cynnwys ei ddal a'i ddatgelu.

Mae *Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971* a rheoliadau a wnaed yn ymwneud â chyfyngiadau (er enghraifft o ran cyflenwi a meddiant) ar gyffuriau sy'n cael eu rheoli. Gall dysgwyr gael eu rhagnodi â chyffuriau rheoledig.

## Atodiad 2: Cysylltiadau defnyddiol

### Asthma

1. Canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar ddefnyddio anadlwyr salbutamol argyfwng yn ysgolion Cymru  
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/15021-use-of-emergency-salbutamol-inhalers-guidance-cy.pdf>
2. Asthma UK Cymru  
Llinell gyngor: 08457 01 02 03  
Swyddfa Caerdydd: 02920 435400  
<http://www.asthma.org.uk>

### Diabetes

3. Diabetes UK Cymru  
Caerdydd: 02920 668276  
[https://www.diabetes.org.uk/In\\_Your\\_Area/Cymru](https://www.diabetes.org.uk/In_Your_Area/Cymru)

### Sioc anaffylactig

4. Allergy UK  
Llinell gymorth: 01322 619898  
<http://www.allergyuk.org/>
5. Ymgyrch Anaphylaxis  
Llinell gymorth: 01252 542029  
<http://www.anaphylaxis.org.uk>

### Epilepsi

6. Epilepsy Cymru  
Llinell gymorth: 0800 228 9016  
<http://www.epilepsy-wales.org.uk>
7. Epilepsy Action Cymru  
01633 253407  
Llinell gymorth: 0808 800 5050  
<https://www.epilepsy.org.uk/involved/branches/cymru>

### Nam ar y synhwyrâu

8. Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)  
Ffôn: 0303 123 9999  
<http://www.rnib.org.uk/cy/wales-cymru-1>
9. Action on Hearing Loss (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwrm eu Clyw)  
Ffôn: 0808 808 0123  
Ffôn testun: 0808808 9000  
<http://www.actiononhearingloss.org.uk/default.aspx>

10. SENSE Cymru – gwasanaethau ar draws Cymru ar gyfer pobl fyddar a dall a'u teuluoedd  
Ffôn: 0300 330 9280  
Ffôn testun: 0300 330 9282  
<http://www.sense.org.uk/content/sense-cymru-wales>

### **Lleferydd ac iaith**

11. AFASIC Cymru - datgloi lleferydd ac iaith  
Llinell gymorth: 0300 666 9410  
Caerdydd 02920 465854  
<http://www.afasiccymru.org.uk>

### **Anawsterau dysgu**

12. Anabledd Dysgu Cymru  
Caerdydd: 02920 681160  
<https://www.adcymru.org.uk>
13. MENCAP Cymru  
Llinell gymorth: 0808 808 1111  
<https://www.mencap.org.uk/wales/cymraeg>
14. Special Needs Advisory Project (SNAP) Cymru  
Ffôn: 0845 120 3730  
<http://www.snapcymru.org>

### **Iechyd Meddwl**

15. Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)  
<http://www.mental-health-matters.org.uk/page151.html>
16. Mind Cymru  
Caerdydd: 02920 395123  
<http://www.mind.org.uk>

### **Mudiadau cymorth â sail feddygol**

17. Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru  
Ffôn: 02920 629312  
[http://www.autism.org.uk/?&sc\\_lang=cy-GB](http://www.autism.org.uk/?&sc_lang=cy-GB)
18. Gwybodaeth Spina Bifida a Hydroceffalws (Shine)  
01733 555988  
<http://www.shinecharity.org.uk>
19. Cerebra – for Brain Injured Children and Young People  
Caerfyrddin: 01267 244200  
<http://w3.cerebra.org.uk>

20. CLIC Sargent – ar gyfer Plant â Chanser  
Cymorth a Chyngor: 0300 330 0803  
<http://www.clicsargent.org.uk>
21. Ffeibrosis Systig  
Llinell gymorth: 0203 795 2184  
<http://www.cysticfibrosis.org.uk>
22. Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Cenedlaethol Anhwylder Diffyg  
Canolbwyntio (ADDiSS)  
Ffôn: 0208 952 2800  
<http://www.addiss.co.uk>
23. Cymdeithas Genedlaethol Ecsema  
Llinell gymorth: 0870 241 3604 (Llun-Gwen 8am i 8pm)  
<http://www.eczema.org>
24. Cymdeithas Gefnogi ME & CFS Cymru  
Ffôn: Caerdydd (029) 2051 5061  
<http://www.wames.org.uk>
25. Bobath Wales  
Ffôn: 029 2052 2600  
[www.bobathwales.org](http://www.bobathwales.org)
26. Headway  
Llinell gymorth: 0808 800 2244  
<https://www.headway.org.uk/home.aspx>
27. Sglerosis Ymledol  
Llinell gymorth: 0808 800 8000  
<http://www.mssociety.org.uk>
28. Ymgyrch Nychdod Cyhyrol  
0800 652 6352  
<http://hub.muscular-dystrophy.org>
29. Prader-Willi Syndrome Association UK  
Llinell gymorth: 01332 365676  
[www.pwsa.co.uk](http://www.pwsa.co.uk)

## **Mudiadau cymorth cyffredinol**

30. Gweithredu dros Blant  
Ffôn: 0300 123 2112  
<https://www.actionforchildren.org.uk/cymraeg>
31. Barnardo's Cymru  
Caerdydd: 02920 493387  
[http://www.barnardos.org.uk/cym/what\\_we\\_do/barnardos\\_today/wales.html](http://www.barnardos.org.uk/cym/what_we_do/barnardos_today/wales.html)
32. Plant yng Nghymru  
Caerdydd: 02920 342434  
<http://www.plantynghymru.org.uk>

33. Action for sick children  
Rhadffôn: 0800 744519  
<http://www.actionforsickchildren.org.uk>

## **Cyrff cyhoeddus**

34. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
Cyngor: 0808 800 0082  
Ffôn testun: 0808 800 0084  
<http://www.equalityhumanrights.com/cy/hafan>
35. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch  
Llinell wybodaeth: 08701 545500  
Caerdydd: 02920 263000  
<http://www.hse.gov.uk/welsh/index.htm>
36. Comisiynydd Plant Cymru  
Ffôn: Abertawe 01792 765600  
Ffôn: Conwy 01492 523333  
<http://www.complantcymru.org.uk/cy/>
37. National Children's Bureau Council for Disabled Children  
Ffôn: Llundain (020) 78436000  
<http://www.ncb.org.uk>
38. Contact a Family – ar gyfer teuluoedd sydd â phlant anabl  
Llinell Gymorth Rhad ac am Ddim: 0808 808 3555  
<http://www.cafamily.org.uk/advice-and-support/in-your-area/offices/cardiff/>
39. Galw Iechyd Cymru  
Tel: 0845 46 47  
<http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/contactus/feelingunwell?locale=cy>